



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Pecyn Partneriaid

Cynigion Diwygiedig  
Arolwg 2023



This document is available in English.  
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [ymholiadau@ffiniau.cymru](mailto:yffiniau@cymru.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

# Cynnwys

<b>Pennod 1</b>	Cyflwyniad	
<b>Pennod 2</b>	Crynodeb o'r Arolwg	06
<b>Pennod 3</b>	Prif negeseuon	08
<b>Pennod 4</b>	Sut i gymryd rhan	10
<b>Pennod 5</b>	Adnoddau: Cyfryngau Cymdeithasol	12
<b>Pennod 6</b>	Adnoddau: Gwefan ac Argraffu	13
<b>Pennod 7</b>	Adnoddau: Y Wasg a'r Cyfryngau	14
<b>Pennod 8</b>	Siart llif o'r Arolwg	18
<b>Pennod 9</b>	Cwestiynau Cyffredin	19



Annwyl bartner,

Hoffem ddiolch i chi am y gefnogaeth rydych wedi'i dangos i'r Comisiwn wrth inni gynnal Arolwg 2023 o etholaethau seneddol yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi ei Gynigion Diwygiedig ac wedi agor yr ymgynghoriad terfynol ar yr Arolwg.


Mae'r pecyn hwn yn rhoi rhywfaint o gyngor nid yn unig ar sut y gallwch chi leisio'ch barn yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, ond sut y gallwch chi ehangu eich llais a llais eich cymuned trwy ledaenu'r gair am yr adolygiad.

Mae gennym rai adnoddau y gallwch eu lawrlwytho a'u defnyddio eich hun, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld cymunedau ledled Cymru yn ymateb i'n cynigion Diwygiedig diolch i ymdrechion pobl fel chi i ledaenu'r gair.

Os ydych chi'n darllen y pecyn hwn yn swyddogol, mae gennym hefyd rai adnoddau a allai fod o fudd i'ch swyddfa neu sefydliad, fel templedi datganiadau i'r wasg a graffeg cyfryngau cymdeithasol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau i ni, cysylltwch â ni ar ymholiadau@ffiniau.cymru.

Yn bwysicaf oll, gadewch i ni wybod eich barn am y cynigion Diwygiedig drwy ymateb i'n hymgynghoriad yn [www.bcw-reviews.org.uk](http://www.bcw-reviews.org.uk).



# Crynodeb o'r Arolwg

Cynhelir Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yn unol â Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwigwyd).

Mae Rheolau'r Ddeddf yn pennu nifer yr etholaethau i'w darparu i Gymru ar gyfer Etholiad Seneddol San Steffan 2024. Mae hefyd yn nodi y dylai pob etholaeth yng Nghymru fod â nifer o etholwyr sydd o fewn  $\pm 5\%$  o gyfartaledd neu cwota y DU.

O dan y ddeddfwriaeth, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn seilio ei argymhellion ar nifer yr etholwyr y mae eu henwau yn ymddangos ar gofrestr yr etholwyr seneddol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 5 Ionawr 2021.

Mae'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y DU wedi cytuno, at ddibenion Arolwg 2023, mai cyfanswm nifer yr etholwyr yn y DU yw 47,558,398 ac, ar ôl cymhwysu'r fformiwla a bennir yn y Ddeddf, mae nifer yr etholaethau ar gyfer pob rhan o'r DU fel a ganlyn:

Gwlad	Etholwyr	Dyraniad presennol	Dyraniad newydd
Lloegr*	39,860,421	533	543
Gogledd Iwerddon	1,295,688	18	18
Yr Alban**	4,079,612	59	57
Cymru***	2,322,677	40	32
Cyfanswm	47,558,398	650	650

\* Nid yw nifer yr etholwyr ar gyfer Lloegr yn cynnwys etholwyr Ynys Wyth. Caniateir i'r ardal hon greu etholaethau lle mae nifer yr etholwyr yn fwy na 5% y tu allan i gwota etholwyr y DU. Mae nifer yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru yn cynnwys yr etholaeth ychwanegol ar gyfer Ynys Wyth.

\*\* Nid yw nifer yr etholwyr ar gyfer yr Alban yn cynnwys etholwyr dwy etholaeth wedi'u cadw sef a) Orkney and Shetland a b) Na h-Eileanan â'n Iar. Caniateir i'r etholaethau hyn gael nifer etholwyr sy'n fwy na 5% y tu allan i gwota etholwyr y DU. Mae nifer yr etholaethau a ddyrannwyd i'r Alban yn cynnwys yr etholaeth ychwanegol ar gyfer Orkney and Shetland a Na h-Eileanan â'n Iar.

\*\*\* Nid yw nifer yr etholwyr ar gyfer Cymru yn cynnwys etholwyr Ynys Môn. Caniateir i'r ardal hon greu etholaeth lle mae nifer yr etholwyr yn fwy na 5% y tu allan i gwota etholwyr y DU. Mae nifer yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru yn cynnwys yr etholaeth ychwanegol ar gyfer Ynys Môn.

Cwota etholwyr y DU i'r cyfanrif agosaf yw 73,393. Felly, mae'n rhaid i bob etholaeth arfaethedig gynnwys rhwng 69,724 ac 77,062 o etholwyr.

Cyhoeddwyd Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru ar 8 Medi, a dilynir hynny gan gyfnod o ymgynghori.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad wrth ymweld a [www.cffg-arolygon.org.uk](http://www.cffg-arolygon.org.uk)



# Prif negeseuon

## “Y cyfle olaf i ddweud eich dweud”

Y cyfnod ymgynghori hwn yw'r cyfle olaf i bobl rannu eu barn yn ystod yr Adolygiad hwn.

Bydd Argymhellion Terfynol y Comisiwn yn dod i rym yn awtomatig o'r Etholiad Cyffredinol nesaf, felly peidiwch â cholli'ch cyfle i lunio'r map newydd o etholaethau Cymru.

## “Mae'ch barn yn bwysig”

Wrth i ni gyflwyno ein cynigion Diwygiedig ar gyfer map newydd o etholaethau Cymru, ni fydd neb yn deall eich ardal leol yn well na chi.

Rydym am glywed eich barn ar ein cynigion Diwygiedig a sut y gellir eu gwella, nid yn unig oherwydd ein bod am ichi gymryd perchnogaeth dros y broses, ond oherwydd bod gennych yr arbenigedd sydd ei angen arnom i ddatblygu'r cynigion gorau posibl.


## “Rydym eisiau gwrando arnoch chi”

Efallai nad ydym wedi diwygio ein cynigion yn yr union ffordd y byddech wedi dymuno, neu efallai na wnaethoch rannu eich barn yn ystod ymgynghoriadau blaenorol.

Beth bynnag a ddigwyddodd hyd at y pwynt hwn yn yr Adolygiad, nid yw'r egwyddor wedi newid: rydym am wrando arnoch.

Gallai ein cynigion newid eto yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, felly parhewch i rannu eich barn.





# Sut i gymryd rhan

## Anfona Gynrychiolaeth

Dyma'r peth pwysicaf, a mwyaf pwerus gallwch wneud.

Anfona gynrychiolaeth gan:

- Ymweld â [cfftg-arolygon.org.uk](http://cfftg-arolygon.org.uk)
- E-bostio [cfftg@ffiniau.cymru](mailto:cfftg@ffiniau.cymru)
- Ysgrifennu at Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Hasting, Caerdydd, CF24 0BL

## Rhanna deunyddiau ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gennym ddigon o adnoddau i chi eu rhannu yn y pecyn yma, gyda ffocws lleol a chenedlaethol (mae pob dim ar gael yn ddwyieithog).

Mae lledaenu'r neges am y cynigion cychwynnol a'r cyfnod ymgynghori ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd arbennig o godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod eich ffrindiau, teulu, cydweithwyr, neu etholwyr yn derbyn y cyfle i leisio'u barn.

## Dyweda wrth dy ffrindiau a dy deulu

Oes gen ti farn gref ar y cynigion cychwynnol? Anoga dy ffrindiau a dy deulu i bori dros y map ac anfon cynrychiolaeth i mewn.

## Rhanna gyda dy gydweithwyr

Beth am ddechrau trafodaeth am y cynigion yn eich swyddfa ac annog eich cydweithwyr i anfon eu safbwyntiau?

## Ysgrifenna lythyr at dy bapur lleol

Gall ysgrifennu at dy bapur lleol fod yn ffordd arbennig o annog y sawl sydd yn cytuno gyda dy farn ar y cynigion i anfon cynrychiolaeth eu hunain i mewn. Gall hefyd fod yn ffordd wych o ddarbwylllo eraill

o dy farn. Mae gennym dempled ar gyfer ysgrifennu llythyr at dy bapur lleol yn y pecyn yma gellir ei haddasu a'i hanfon at bapur lleol neu genedlaethol.

## **Cynrychioli mudiad? Defnyddia ein templed datganiad i'r wasg**

Anoga dy aelodau, etholwyr, neu gefnogwyr i ddweud eu dweud gan addasu ein templed datganiad i'r wasg. Gallwch annog pobl yn eich ardal leol, neu yn genedlaethol i leisio'u barn yn ein hymgyngoriad gan addasu'r templed i'ch siwtio chi. Gallwch hefyd ysgrifennu darn barn neu drafod y cynigion diwygiedig yn eich colofn papur newydd.

## **Dechreuau ymgyrch**

Nid oes rhaid i dy gynrychiolaeth fod yn un unigol. Os oes gen ti farn gref ar y cynigion diwygiedig gellir ddechrau ymgyrch ysgrifennu llythyrau neu lansio deiseb. Gellir hyd yn oed sefydlu standin stryd neu fynd o ddrws i ddrws yn casglu llofnodion.

## **Defnyddia "Boundary Assistant"**

Nid yn unig ydyn ni am i chi anfon cynrychiolaeth, rydym hefyd eisiau i chi anfon y gynrychiolaeth gorau posib. Y cynrychiolaethau sydd yn fwyaf tebygol o gael effaith ar ein cynigion yw'r rhai sydd yn cynnig opsiwn amgen sydd yn bosib o dan y ddeddf.

I'ch helpu i wneud synnwyr o'r map, ac i wirio bod eich ffigyrau yn gweithio, gallwch ddefnyddio'r wefan, <https://boundaryassistant.org/>.

Gallwch hefyd lawr lwytho eich map oddi ar Boundary Assistant a'i hanfon fel cefnogaeth eich cynrychiolaeth. (Arbed fel ffeil zip er mwyn ei hanfon drwy'r porth, neu anfon mewn e-bost).

Ni allwn fod yn sicr o gywirdeb y ffigyrau ar Boundary Assistant gan ei fod ar wahân i'r Comisiwn.

# Adnoddau: Cyfryngau Cymdeithasol

## Neges rydym yn argymell

“Mae etholaethau seneddol Cymru yn newid. Lleisia dy farn ar gynigion @BCommWales gan ymweld â [cfftg-arolygon.org.uk](http://cfftg-arolygon.org.uk)”

## Graffegau

Gan glicio ar y ddolen isod gallwch weld a lawr lwytho ystod eang o luniau gallwch eu defnyddio er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Mae cymysgedd o luniau lleol a chenedlaethol ar gael, a bob un ar gael yn ddwyieithog.

[Clicia yma er mwyn dod o hyd i'r lluniau.](#)

# Adnoddau: Gwefan ac Argraffu

## Post byr

Defnyddiwch y canlynol ar dudalen flaen eich gwefan er mwyn annog eraill i ymateb i'r ymgynghoriad.

“Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi ei gynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru. Gallwch leisio'ch barn ar y cynigion gan ymateb i'r ymgynghoriad cyn 15 Tachwedd.

Ewch i [cfftg-arolygon.org.uk](http://cfftg-arolygon.org.uk) er mwyn gweld y cynigion a gwneud eich sylwadau arnynt.”

## Erthygl Cylchlythyr

### Lleisia dy farn ar newidiadau ffiniau arfaethedig

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi ei gynigion Diwygiedig, ac mae cyfnod ymgynghori terfynol yr Arolwg o etholaethau seneddol bellach ar agor.

Daw'r ymgynghoriad ar y set ddiweddaraf o gynigion i ben ar 15 Tachwedd 2022. Gallwch ddweud eich dweud ar y cynigion yn lleol, ac yn genedlaethol. Anfonwch eich barn p'un a ydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion.

Gallwch anfon eich barn ar y cynigion drwy borth ymgynghori'r Comisiwn. Gellir cyrchu'r porth yn [bcw-reviews.org](http://bcw-reviews.org).

Gellir gweld y cynigion hefyd yn [bcomm-wales.gov.uk](http://bcomm-wales.gov.uk), neu mewn nifer o “fannau adneuo” lleol sydd wedi'u rhestru ar wefan y Comisiwn.

Gallwch hefyd anfon eich barn drwy e-bost at [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru) neu drwy'r post at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Caerdydd, CF24 0BL.

# Adnoddau: Y Wasg a Llythyrau

## Templed Datganiad i'r Wasg

Nodwch mai templed yw hwn. Mae'r testun mewn coch angen ei newid er mwyn fod yn berthnasol i chi. Gallwch hefyd newid y dyfyniad er mwyn iddo gyd-fynd gyda beth rydych chi/eich mudiad am ddweud. Mae'r templed hefyd ar gael yn y Saesneg.

## DATGANIAD I'R WASG - I'W RYDDHAU AR UNWAITH

**Galw ar bobl yn Enw Cymuned i ddweud eu dweud ar newidiadau ffiniau arfaethedig**

**Comisiwn Ffiniau i Gymru yn agor ymgynghoriad olaf ar fap etholaethau newydd**

Mae pobl mewn enw cymuned yn cael eu hannog i ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ei fap newydd arfaethedig o etholaethau seneddol Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei gynigion Diwygiedig, gyda newidiadau wedi'u gwneud i'r etholaethau a gynigiwyd yn wreiddiol ym mis Medi 2021.

Mae'r ymgynghoriad bellach ar agor a bydd yn cau ar 15 Tachwedd 2022. Gall trigolion ddweud eu dweud ar y cynigion yn lleol, ac yn genedlaethol ac fe'u hanogir i anfon eu barn a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion.

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi sefydlu porth ymgynghori ar-lein lle gall trigolion weld y cynigion a gwneud sylwadau ar elfennau penodol ohonynt. Gellir cyrchu'r porth yn [bcw-reviews.org.uk](http://bcw-reviews.org.uk)

Gellir gweld y cynigion hefyd yn [bcomm-wales.gov.uk](http://bcomm-wales.gov.uk), neu mewn nifer o "fannau adneuo" lleol sydd wedi'u rhestru ar wefan y Comisiwn.

Gall y rhai y byddai'n well ganddynt ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddulliau heblaw'r porth ymgynghori anfon eu barn drwy e-bost at [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru) neu drwy'r post at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llawr

Gwaelod, Tŷ Hastings, Caerdydd, CF24 0BL.


Wrth annog trigolion i ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd **Enw'r Person**, "Mae'r cynigion Diwygiedig hyn gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn awgrymu newidiadau sylweddol ar gyfer etholaethau ledled Cymru.

"Yr ymgynghoriad hwn yw cyfle olaf y cyhoedd i effeithio ar y map newydd o etholaethau Cymru.

"Hoffwn annog pawb i edrych ar y cynigion a dweud eich dweud cyn 15 Tachwedd."

Rhaid i bob etholaeth a gynigir gan y Comisiwn gynnwys rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a ddaw i law o fewn y cyfnod ymgynghori ond mae wedi pwysleisio bod cynrychiolaethau'n cael eu cryfhau lle maent yn cynnig dewisiadau amgen ymarferol mewn perthynas ag etholaethau cyfagos.

DIWEDD



## Templed Llythyr

**Nodwch mai templed yw'r llythyr yma. Newidiwch y geirio gymaint a hoffech er mwyn iddo gyd-fynd a'ch barn. Mae'r templed hefyd ar gael yn y Saesneg.**


Annwyl olygydd,

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi ei gynigion Diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru. Mae'r cynigion hyn yn awgrymu newidiadau sylweddol ar draws Cymru wrth i'r wlad wynebu gostyngiad mewn ASau o'r 40 presennol i 32.


Byddwn yn annog pawb sydd â barn gref ar y cynigion hyn i ddweud eu dweud yn ystod y cyfnod ymgynghori presennol sy'n cau ar 15 Tachwedd.

Mae newid sylweddol o'r fath yn gofyn am ymgysylltu sylweddol â'r cyhoedd a phe bai gan rywun farn gref ar y cynigion hyn naill ai o'u cefnogi neu'n eu gwrthwynebu, dylent wneud y Comisiwn yn ymwybodol o hynny cyn gynted â phosibl drwy fynd i [bcw-reviews.org.uk](http://bcw-reviews.org.uk), e-bostio [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru), neu ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Hastings, Caerdydd, CF24 0BL.





# Siart lif o'r broses



# Cwestiynau Cyffredin

## **Pam rydych chi'n cynnal arolwg o etholaethau Seneddol?**

Rydym ni'n gyfrifol am gynnal arolwg o ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru ar sail rheolau a osodwyd gan y Senedd. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad ffurfiol erbyn 1 Gorffennaf 2023 ar sail rheolau a amlinellir yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020).

## **Pam mae nifer yr Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli Cymru yn cael ei lleihau?**

Mae'r Ddeddf yn datgan y bydd nifer benodedig o 650 o etholaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fformiwla fathemategol i bennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Yn unol â'r fformiwla honno, mae 32 o etholaethau wedi'u dyrannu i Gymru o dan y Ddeddf. Mae'n rhaid i etholaethau Cymru fod yn gyfan gwbl o fewn Cymru, ac ni allant gynnwys ardaloedd rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

## **Sut cafwyd y ffigur etholaeth gyfartalog? Pa feini prawf a ddefnyddioch chi?**

Mae'r Ddeddf yn gosod y rheolau i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal arolwg o ffiniau etholaethau Seneddol. Nid y Comisiwn ei hun a wnaeth y penderfyniadau hyn. Cafwyd y ffigur ar gyfer nifer yr etholaethau yng Nghymru trwy gymhwyso fformiwla a bennir yn y ddeddfwriaeth. Gweler ein Canllaw i Arolwg 2023 i gael rhagor o fanylion.

## **Pam mae Ynys Môn yn eithriad i'r cwota etholiadol?**

Mae pum eithriad o 'Reol 2' y Ddeddf, sy'n gosod y paramedrau ar gyfer maint etholaethau ledled y Deyrnas Unedig. Y rhain yw dwy etholaeth ar Ynys Wyth yn Lloegr, Ynysoedd Orkney a Shetland a Na

h-Eileanan an Iar yn yr Alban, ac Ynys Môn yng Nghymru.

## **Beth yw'r Comisiwn / beth yw swyddogaeth y Comisiwn?**

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a diduedd sy'n gyfrifol am gynnal arolygon o ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru a gwneud argymhellion ar gyfer newid i'r Senedd.

## **Pwy yw'r Comisiynwyr?**

Dewiswyd y Comisiynwyr trwy gystadleuaeth gyhoeddus agored.

- Dirprwy Gadeirydd: Mrs Ustus Jefford DBE
- Aelodau'r Comisiwn: Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam A Hartley

Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu cyfarfodydd y Comisiwn, yn farnwr yr Uchel Lys a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Penodir y ddau aelod arall ar y cyd gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn a'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet.


## **Sut bydd etholaethau Seneddol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu niferoedd newidiol o etholwyr mewn gwahanol ardaloedd?**

Ar gyfer ei Arolwg 2023, roedd yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried nifer yr etholwyr cofrestredig ar 02 Mawrth 2020.

## **Pam rydych chi wedi defnyddio data'r gofrestr etholiadol ac nid data'r boblogaeth? A yw nifer yr etholwyr cofrestredig yn ddibynadwy?**

Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y cofrestrau etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'.

Nid yw'r Comisiwn yn berchen ar gofrestrau etholiadol nac yn eu coladu – awdurdodau lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn defnyddio'r ffigurau a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), felly nid yw'r Comisiwn yn gallu ystyried urnhyw dangofrestru neu orgofrestru etholwyr a allai gael ei honni mewn rhai ardaloedd.



## **Pa feini prawf byddwch chi'n eu defnyddio?**

(Yn unol â'r Ddeddf) caiff Comisiwn ystyried:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu yn yr arfaeth ar 1 Rhagfyr 2020;
- ffiniau etholaethau presennol;
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau; ac
- yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath.

Cyn belled ag y bo'n bosibl, mae'r Comisiwn yn ceisio creu etholaethau yng Nghymru:

- O wardiau etholiadol sy'n agos i'w gilydd; ac
- Nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol.

## **Sut mae'r cynigion yn gysylltiedig ag etholaethau Senedd Cymru?**

Mae'r Cynigion yn berthnasol i etholaethau Senedd San Steffan yn unig. Diddymodd Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 y cysylltiad rhwng y ddwy set o etholaethau. Mae unrhyw gynnig i greu dull o arolygu etholaethau Senedd Cymru yn un o gyfrifoldebau datganoledig Senedd Cymru.

## **Sut mae'r Cynigion yn berthnasol i weithgarwch Llywodraeth Leol?**

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFFDLC) yn endid ar wahân i'r Comisiwn. Nid oes cydberthynas rhwng Arolwg 2023 a rhaglen waith CFFDLC.

## **A fydd y newidiadau'n effeithio ar fy nghod post?**

Na fyddant. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynddi yn effeithio ar godau post na'r ffordd o'u dyrannu.

### **A fydd hyn yn effeithio ar fy nhreth gyngor?**

Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynddi yn effeithio ar y dreth gyngor na'r ffordd o'i dyrannu. Yr awdurdod lleol perthnasol sy'n gosod y dreth gyngor.

### **A fydd hyn yn effeithio ar fy nalgylch ysgol?**


Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynddi yn effeithio ar ddalgylchoedd ysgolion. awdurdodau lleol neu ysgolion unigol sy'n penderfynu ar ddalgylchoedd.

### **A fydd hyn yn effeithio ar fy awdurdod lleol?**

Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynddi yn effeithio ar ddyluniad awdurdodau lleol yng Nghymru, na'u ffiniau. Mewn gwirionedd, mae ffiniau awdurdodau lleol presennol yn ffactor y mae'r Comisiwn yn ei ddefnyddio wrth ddylunio etholaethau, lle y bo'n bosibl.

### **A fydd hyn yn effeithio ar fy nghyngor cymuned/tref?**

Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynddi yn effeithio ar ddyluniad cyngorau cymuned neu dref yng Nghymru, na'u ffiniau. Mewn gwirionedd, polisi'r Comisiwn yw peidio â hollti unrhyw gyngorau cymuned neu dref yn rhan o'r arolwg hwn.



### **A fydd hyn yn effeithio ar werth fy nhy?**

Na fydd. Mae gwerth eich eiddo'n cael ei bennu gan liaws o ffactorau. Nid oes tystiolaeth bod yr etholaeth rydych yn byw ynnddi yn effeithio ar werth eich eiddo.

### **A fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd a ddarperir i mi?**

Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynnddi yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd.

### **A fydd hyn yn effeithio ar fy amwynderau cymunedol?**

Na fydd. Nid yw'r etholaeth rydych yn byw ynnddi yn effeithio ar eich amwynderau cymunedol.







**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

---

**Boundary Commission  
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)